LLWYDDO'N LLEOL 2050

# fesul darn

## CASGLIAD O STRAEON



# GWEITHGAREDDAU

i gyd-fynd â'r gyfrol o straeon Fesul Darn

Cyhoeddwyd gyntaf yng Nghymru yn 2024
gan Atebol Cyfyngedig, Adeiladau'r Fagwyr,
Llanfihangel Genau'r Glyn, Aberystwyth,
Ceredigion SY24 5AQ

Crëwyd yr adnodd hwn gan Esyllt Nest Roberts

Hawlfraint y cyhoeddiad © Llwyddo'n Lleol 2025

Anfoner pob ymholiad hawlfraint at Atebol.

**atebol.com**

ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Mae'r casgliad yma wedi cael ei greu fel rhan o brosiect Llwyddo'n Lleol. Un o brosiectau rhaglen ARFOR yw Llwyddo'n Lleol 2050. Mae allfudo teuluoedd a phobl ifanc yn cael ei gydnabod fel un o'r prif resymau am ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cadarnleoedd. Nod Llwyddo'n Lleol 2050 yw darbwyllo pobl ifanc a theuluoedd ifanc sydd mewn peryg o adael, neu sydd eisoes wedi gadael, fod modd cael dyfodol disglair, a swydd dda mewn maes cyffrous, yn eu cymunedau cynhenid. Mae prosiect Llwyddo'n Lleol 2050 yn cael ei weinyddu ar y cyd gan Mentera a Menter Môn.

Mae rhaglen ARFOR yn fenter ar y cyd gan Gynghorau Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn sy'n edrych i ddefnyddio mentergarwch a datblygu'r economi i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg a, thrwy hynny, cynnal yr iaith. Fel y dywed Lleucu Non,

**Blas yr aer wrth gael dy wynt**
**teimlaf 'sgyfaint yn llenwi'n gynt**
**mae 'na wahaniaeth yn y ffordd dan ni'n anadlu**
**mewn dinas a phentref bach ger y môr yng Nghymru.**

LLWYDDO'N LLEOL 2050

# Blwyddyn 7, 8, 9

**IAITH AC ARDDULL** Defnyddio deialog, atalnodi
**YSGRIFENNU DEIALOG**

Mae defnyddio deialog mewn stori yn gymorth i awdur greu darlun o gymeriad a'i fyd.

Drwy ystyried llais, corff, amgylchfyd a meddwl y cymeriad gallwn ddysgu llawer amdano.

## Gweithgaredd

**Ysgrifennwch** ddau ddarn o ddeialog rhwng Mared o'r stori **Bocsys** a Nerys, ei hen ffrind.

Bydd y darn cyntaf wrth i'r ddwy siarad ar y ffôn y noson gyntaf i Mared gysgu yn ei chartref newydd.

Yna, ysgrifennwch yr ail ddarn ar y noson ar ôl i Mared fod gyda Dyfrig a'i ffrindiau ar y traeth.

Cofiwch atalnodi'n gywir.

LLWYDDO'N LLEOL 2050

## Gweithgaredd

**Trafodwch** beth mae'r dyfyniadau isod yn ei ddweud am gymeriad Mared yn **Bocsys** (t.9)?

Meddyliwch am y **llais, y corff, yr amgylchfyd** a'r **meddwl** wrth egluro eich ateb.

- Sut mae llais Mared yn adlewyrchu ei theimladau?
- Ydy hi'n hapus yn ei chartref newydd?
- Sut mae hi'n ymddwyn yng nghwmni'r bobl sydd o'i chwmpas?
- Beth sy'n mynd drwy ei meddwl wrth ddweud y pethau hyn?

'Jog. On. Buddy!' sibrydodd gan ddal ei dei yn dynn. Tynnodd ar y cwlwm ryw ychydig. Doedd hi ddim yn un i dderbyn cael ei bwlian. Ddim heddiw. (t.12)

Sobrodd Mared. Gwyddai nad ar ei mam roedd y bai.
Syllodd arni.
'Sori Mam...' (t.10)

'MAM, for god sêc. Sai'n mynd, reit! Fi'n mynd i ddala'r bws a mynd 'nôl gartref. Mynd 'nôl at Dad.' (t.9)

'Alla i ddim mynd, reit? Fi wedi gweud o'r bla'n, do'n i ddim moyn symud yn y lle cyntaf. Pam na allech chi fod wedi gadael fi ar ôl yng Nghaerdydd, yn lle llusgo fi draw i'r dim unman hyn? Sdim wifi! Sdim bysus! Sdim trêns! Sdim ffrindiau! Sdim byger ôl i gael 'ma! Dim ond blydi defed!' gwaeddodd Mared. (t.9)

# Gweithgaredd

**Ysgrifennwch** ddarn byr o ddeialog rhwng Lwsi a Tanwen, dwy o ffrindiau Gwen o'r stori **Ochr Arall y Geiniog** (t.17) ar ôl ymweliad Gwen â Sioe'r Cwm.

- Beth yw barn y ddwy am eu hen ffrind ar ôl ei hymweliad â bro ei mebyd?

Cofiwch atalnodi'n gywir.

## Dyfynodau

Mae'n bwysig defnyddio dyfynodau ("..." neu '...') o gwmpas yr hyn mae cymeriadau'n ei ddweud mewn stori. Cofiwch fod angen agor a chau'r dyfynodau. Cofiwch hefyd roi priflythyren i ddilyn y dyfynodau agoriadol,

e.e. "Dwyt ti ddim yn gwybod pa mor lwcus wyt ti..."

# Blwyddyn 10-11

**HUNANIAETH** Meithrin ymdeimlad o falchder yn eu hunain, eu cymunedau a'u gwlad.
**YSGRIFENNU DYDDIADUR**

Mae'r straeon yn y gyfrol hon wedi'u lleoli mewn sawl lle gwahanol yng ngorllewin Cymru.

Mae nifer o eiriau Cymraeg gwahanol i ddisgrifio rhan benodol o le a'r bobl sy'n byw yno, e.e. 'ardal'. Fedrwch chi feddwl am eiriau eraill a beth yw eu hystyr?

Gallwch ddefnyddio geiriadur i'ch helpu, wrth gwrs.

- Bro,
- cymuned,
- cymdogaeth,
- cymdeithas,
- cynefin,
- milltir sgwâr.

## Atalnodi

Cofiwch atalnodi gan ddefnyddio:

atalnod (,)
atalnod llawn (.)
gofynnod (?)
ebychnod (!)

# Gweithgaredd

Er mai **Genod Port** (t.36) yw teitl stori Manon Steffan Ros, dydy'r awdur ddim yn rhoi disgrifiad darluniadol o dref Porthmadog i ni. Er hynny, rhwng llinellau'r stori, rydym yn dysgu llawer am y dref, y gymdeithas a'r bobl sy'n byw yno.

- **Trafodwch** sut le yw/ ydych chi'n feddwl yw Porthmadog.
- Trafodwch beth mae John, Delia, Rhian a Llinos yn ei feddwl o Port.
- Ydych chi'n gwybod am le sy'n debyg i Port?
- Beth sy'n eu gwneud nhw'n debyg i'w gilydd (ac yn wahanol i fannau eraill)?

# Gweithgaredd

Mae Rhian a Llinos yn **Genod Port** (t.36) wedi eu magu yn nhref Porthmadog ac wedi bod yn yr ysgol gyda'i gilydd.

- **Trafodwch** beth yw'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd rhwng y ddwy?
- Beth yw pwysigrwydd Port i'r ddwy?
- Beth yw pwysigrwydd y ddwy i Delia a John?
- Beth yw pwysigrwydd y ddwy i themâu'r stori (cymuned a chynefin, perthyn, iaith...)?

# Gweithgaredd

Mae'r stori **Genod Port** (t.36) wedi ei hysgrifennu yn y person cyntaf o safbwynt John, gŵr Delia.

**Ysgrifennwch** ddyddiadur Delia y noson yr aeth hi i'r ysbyty a hefyd y noson ar ôl i'r doctor fod yn ei gweld.

Cofiwch sôn am John, Rhian, Llinos a **thref Porthmadog** yn y dyddiadur.)

# Blwyddyn 12 -13

**THEMÂU SY'N YMWNEUD Â CHYNEFIN A GWRTHDARO**
**YSGRIFENNU MONOLOG**

Mae llawer o themâu yn ymddangos yn straeon y gyfrol hon.

CYNEFIN
HIRAETH
CEFN GWLAD
ECONOMI
IAITH
ADNABOD
PERTHYN
CYFEILLGARWCH
Y GYMDEITHAS WLEDIG

# Gweithgaredd

Trafodwch themâu'r straeon **Ochr Arall y Geiniog** (t.17) a **Genod Port** (t.36).

Gan ystyried y themâu hyn, beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y ddwy stori?

Thema gyffredin arall yw'r gwrthdaro (mewnol ac allanol) mae rhai o'r cymeriadau yn eu teimlo wrth symud i fyw/dychwelyd i gefn gwlad:

**Gwrthdaro mewnol** – mae'n digwydd ym meddwl y cymeriad wrth iddo geisio dod i benderfyniad, neu ddod i delerau â theimlad (brwydr y cymeriad yn erbyn y cymeriad ei hun)

**Gwrthdaro allanol –** mae'n digwydd rhwng y cymeriad a rhywun neu rywbeth arall e.e. cymeriad yn erbyn cymeriad arall, cymeriad yn erbyn natur, cymeriad yn erbyn y gymdeithas.

# Gweithgaredd

**Trafodwch** y ffactorau allai effeithio ar y gwrthdaro mewnol ac allanol yn y straeon,

Er enghraifft:

- Gwrthdaro oherwydd yr economi leol/methu cael gwaith – **Gwerth Chweil** (t.54), **Y Rhestr** (t.64)
- Gwrthdaro rhwng cymeriadau – **Bocsys** (t.9), **Gwerth Chweil** (t.54)
- Gwrthdaro cymeriad yn erbyn natur – **Gwdihŵ** (t.44)
- Gwrthdaro cymeriad yn erbyn y gymdeithas – **Ochr Arall y Geiniog** (t.17), **Tonnau Ddoe** a **Fflapjacs Heddiw** (t.26)
- Gwrthdaro cymeriad yn erbyn sefyllfa ieithyddol – **Genod Port** (t.36), **Y Drws Cywir** (t.74)

# Gweithgaredd

**'Yr eiliad honno, teimlai gywilydd yn ei dynoliaeth.' (t.46)**

Yn y stori Gwdihŵ (t.44), mae Celyn newydd ladd tylluan gyda'i cherbyd Freelander ar un o lonydd cefn gwlad sir Gâr.

**Trafodwch** weithgareddau eraill allai godi cywilydd arnom fel dynoliaeth a sut y gallem eu hosgoi. Sut gall pobl mewn cymunedau tebyg i'r un yn y stori hon weithredu er mwyn osgoi/dadwneud niwed o'r fath?

**Ysgrifennwch** fonolog o safbwynt Celyn NEU o safbwynt unigolyn arall sy'n teimlo cywilydd am ryw weithred niweidiol gennym ni fel dynoliaeth.

Gallech drafod y gwrthdaro mewnol ac allanol y gallai'r unigolyn hwn ei deimlo o ran y weithred a drafodir.

# Yr awduron

ARFOR LLWYDDO'N LLEOL 2050

## HEIDDWEN THOMAS

Mae Heiddwen yn Bennaeth Cyfadran y Celfyddydau mynegiannol ym Mro Teifi. Enillodd y Fedal Ddrama yn 2017. Mae'n awdur ar bum nofel gyda'r chweched i'w chyhoeddi yn 2025.

## ALAW FFLUR JONES

Merch o Ddyffryn Aeron, Ceredigion sydd wrth ei bodd yn darllen ac ysgrifennu, ac felly aeth ymlaen i astudio'r Gymraeg a Newyddiaduraeth gan raddio gyda gradd dosbarth cyntaf o Brifysgol Caerdydd. Mae wedi ennill ar sawl Tlws yr Ifanc yn y gorffennol, gan gynnwys Tlws Yr Ifanc yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae hyn yn un o'i phrif uchafbwyntiau, yn ogystal ag ennill Coron CFfI Ceredigion a Chymru yn 2023, a Gwobr Goffa Meic Povey am ddrama dan 25ain yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ymysg ei diddordebau, mae'n mwynhau mynychu Clwb Ffermwyr Ifanc Felin-fach, rhedeg, a chymdeithasu gyda ffrindiau.

## MANON STEFFAN ROS

Mae Manon yn awdur, sgriptwraig a cholofnydd. Mae hi wedi ysgrifennu mwy na 40 o lyfrau, ac wedi ennill sawl gwobr am ei gwaith. Mae hi'n byw ym Mro Dysynni.

## GARETH JONES-EVANS

Mae Gareth Evans-Jones yn enedigol o Draeth Bychan, Ynys Môn, ac wedi byw yno am ran helaeth o'i fywyd Yn ddarlithydd Athroniaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Bangor, ynghyd â bod yn un o gyfarwyddwyr Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru, mae Gareth hefyd yn ysgrifennu'n greadigol mewn amryw ddulliau ac wedi cyhoeddi nifer o lyfrau gan gynnwys dwy nofel, cyfrol o straeon i blant (Llanddafad, 2024) a chyfrol o lên meicro a ffotograffau a enillodd wobr Ffeithiol Greadigol Llyfr y Flwyddyn 2023, Cylchu Cymru: llun a llên wrth gerdded. Mae hefyd wedi ennill Medal Ddrama'r Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith ac wedi golygu cyfrolau amrywiol gan gynnwys Ar Amrantiad – cyfrol o straeon byrion gan awduron newydd a phrofiadol (Sebra 2024).

## ANDREW TEILO

Ar ôl gweithio fel actor am dros drideg o flynyddoedd, penderfynodd Andrew roi ei gariad oes at lenyddiaeth ar waith; yn 2021, graddiodd o Brifysgol Abertawe gyda gradd MA mewn Ysgrifennu Creadigol, a chyhoeddodd ei gyfrol ffuglen gyntaf, Pryfed Undydd, yn 2023. Fe'i magwyd yn Nyffryn Tywi ac yno mae'n byw o hyd, yn fab balch balch ei fro.

## LLEUCU NON

Daw Lleucu Non yn wreiddiol o Ddyffryn Nantlle ond wedi bod yn byw yn Aberystwyth fel myfyriwr ers 2020. Erbyn hyn, mae'n astudio MPhil Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Lleucu wedi cyfrannu at gylchgrawn digidol Lysh Cymru yn ogystal â bod yn olygydd gwadd am gyfnod byr, dau rifyn o Codi Pais ac wedi cyhoeddi ei stori fer cyntaf yng nghyfrol Ar Amrantiad gwasg Sebra. Mae'n gobeithio parhau â'i hysgrifennu drwy weithio yn rhan o ddiwydiant cyhoeddi Cymru.

## MORFUDD OWEN

Mae Morfudd yn ysgrifennwr o Fôn sy'n gweithio yn y celfyddydau. Wedi astudio ysgrifennu ym mhrifysgolion Warwick a Rhydychen, mae hi rŵan yn dewis byw yn agos at y môr.

## SIONED MEDI EVANS

Mae Sioned yn byw yn Nefyn, Pen Llŷn ac yn gweithio fel darlunydd llawrydd llawn amser. Hoffai greu bydoedd newydd dychmygol, bywiog, llawn lliw a chreadigrwydd. Yn ei hamser hamdden hoffai fynd am dro am y traeth, darllen ac ymweld ag arddangosfeydd celf.

## SIONED BOWEN

Mae Sioned yn byw ar fferm yn ardal Llanfihangel-ar-arth. Cafodd ei haddysg yn Ysgol Dyffryn Teifi a Bro Teifi cyn symud ymlaen i astudio Cymraeg Proffesiynol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n gweithio fel Cyfieithydd a Chyfieithydd ar y Pryd gyda Chyngor Ceredigion. Mae'n aelod gweithgar o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni, mae'n mwynhau cymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol ac wedi profi llwyddiant llenyddol gan ennill 3 coron yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Sir Gâr. Mae wrth ei bodd yn darllen, cadw'n heini a chymdeithasu.

LLWYDDO'N LLEOL 2050

Mae'r gyfrol o straeon **FESUL DARN** yn cynnwys casgliad o wyth stori gan awduron sy'n byw yn ardal Arfor.

Mae'r cymeriadau yn y straeon ynghyd â'r disgrifiadau hudolus o harddwch a chyfoeth yr ardal yn siŵr o ddarbwyllo unrhyw berson ifanc nad oes angen iddyn nhw na'u plant symud i ffwrdd er mwyn llwyddo.

ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government